



Polisi Anghenion Gofal Iechyd

Enw'r Ysgol	Ysgol y Gwernant
Cyfeiriad a chod post	Pengwern Llangollen LL20 8AR
Rhif Ffôn	01978861986
Cyfeiriad e-bost ar gyfer y polisi hwn	ysgol.gwernant@denbighshire.gov.uk
Dolen gwe i'r polisi	www.ysgolygwernant.co.uk

Enw'r polisi	Polisi Anghenion Gofal Iechyd
Rhif fersiwn y polisi	1
Dyddiad y cafodd y Polisi ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Corff Llywodraethu	16/10/17
Dyddiad y daw'r polisi i rym	16/10/17
Dyddiad Adolygu	Medi 2021
Llofnodwyd (Pennaeth)	
Llofnodwyd (Cadeirydd y Corff Llywodraethu)	
Gwybodaeth am y polisi hwn ar gael i rieni/gofalwyr.	Mae Canllawiau Statudol yn nodi y dylai'r polisi fod yn hygyrch i rieni/gofalwyr e.e. polisi ar wefan yr ysgol; gwybodaeth ym mhrosiectws yr ysgol; llythyr ar ddechrau bob tymor i bob rhiant/gofalwr.

I'w lenwi gan Wasanaethau Addysg a Phlant Sir Ddinbych:

Datblygwyd y polisi gan	Sue Davidson Paula Roberts
Dyddiad y mabwysiadwyd y polisi gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant JMT	10/06/2017
Dyddiad y cyflwynwyd y polisi gwreiddiol i ysgolion Sir Ddinbych	13/06/2017
Rhif y fersiwn a dyddiad	Fersiwn 2 05/07/2017
Fersiwn wedi'i ddatblygu gan	Sue Davidson Paula Roberts
Dyddiad Adolygu Blynyddol	01/06/2017
Asesiad lles wedi'i gwblhau a'r dyddiad	01/06/2017

Datganiad Staff

Bydd gan yr holl staff fynediad i'r polisi hwn, y gellir ei ganfod yn yr ystafell athrawon
Dylai'r holl staff lofnodi isod i gadarnhau eu bod wedi ei ddarllen, ei ddeall ac y byddant yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

Enw	Llofnod	Dyddiad

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	4
1.1	Trosolwg	4
1.2	Datganiadau polisi allweddol	4
1.3	Deddfwriaeth a Chanllawiau	5
1.4	Ffurio'r polisi hwn	5
2.	Rolau a chyfrifoldebau	5
3.	Yswiriant	6
4.	Camau i'w cymryd pan fydd gan ddisgybl angen gofal iechyd	6
4.1	Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol (CGIU).....	6
4.2	Datblygiad yr CGIU	6
4.3	Cyfrifoldebau ar gyfer CGIU	8
4.4	Datblygiad a chynnwys	8
4.5	Cydlynu gwybodaeth gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y disgybl a rhieni/gofalwyr.....	9
4.6	Rôl y disgybl i reoli ei anghenion gofal iechyd ei hunan	9
4.7	Mynediad i'r CGIU	9
5.	Adolygiad o anghenion gofal iechyd disgyblion.	9
5.1	CGIU	9
5.2	Dim CGIU	10
6.	Rhannu a chofnodi gwybodaeth	10
7.	Cadw Cofnodion	11
8.	Cyfathrebu â rhieni/gofalwyr	11
9.	Creu amgylchedd dysgu hygyrch	12
9.1	Hygyrchedd.....	12
9.2	Cymwysterau, arholiadau ac asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol	12
9.3	Addysg ac eithrio addysg ysgol (AEAY)	12
9.4	Integreiddio	13
9.5	Cludiant Ysgol	13
10.	Gweithdrefnau Mewn Argyfwng	13
11.	Hyfforddiant a dyraniad staff	14
12.	Teithiau dydd ac ymweliadau preswyl	15
13.	Meddyginiaeth	15
13.1	Cyflenwad o feddyginiaeth / dyfeisia.....	15
13.2	Derbyn / dychwelyd meddyginiaethau (gan gynnwys eu cludo i'r ysgol)	16
13.3	Storio	16
13.4	Mynediad.....	17
13.5	Gwaredu	18
13.6	Gweinyddu	18
13.7	Hunanfeddyginiaeth	19
13.8	Newis dos / meddyginiaeth	20
13.9	Effeithiau andwyol	20
13.10	Gwallau meddygol	20
13.11	Gwrthod neu gamddefnyddio meddyginiaeth	20
13.12	Meddyginiaeth gudd	21
13.13	Meddyginiaeth sydd wedi gorffen neu fod y dyddiad wedi dod i ben.....	21
13.15	Asthma	21
13.16	Cyffuriau a reolir	21
13.17	Meddyginiaeth nad ydyw ar bresgripsiwn (e.e. dros y cownter, homeopathig).....	22
14.	Gweithdrefn Gwyno	22
15.	Adolygu'r Polisi	22
Atodiad 1: cysylltu â'r gwasanaethau brys		23
Atodiad 2: caniatâd rhiant / gofalwr i'r ysgol weinyddu meddyginiaeth i ddisgybl.....		24
Atodiad 3: model cynllun gofal iechyd unigol (CGIU).....		27
Atodiad 4: cofnod hyfforddiant staff – gweinyddu meddyginiaeth		33
Atodiad 5: cofnod o feddyginiaeth a weinyddwyd i ddisgybl.....		34
Atodiad 6: disgyblion gyda chynlluniau gofal iechyd unigol (CGIU).....		35
Atodiad 7: roddiad digwyddiad yn ymwneud â meddyginiaeth / gofal iechyd.....		36
Atodiad 8: arfer annerbyniol		37
Atodiad 9: awdurdodi'r ysgol i weinyddu meddyginiaeth gudd		38

1. Cyflwyniad

1.1 Trosolwg

- 1.1.1 Mae hwn yn bolisi enghreifftiol a ddatblygwyd gan Wasanaethau Addysg a Phlant Sir Ddinbych yn unol â **Chanllaw Statudol** Llywodraeth Cymru: Cefnogi dysgwyr gydag anghenion gofal iechyd. Canllaw. Llywodraeth Cymru 215/2017 (<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy>).
- 1.1.2 Mae'n rhaid darllen y polisi hwn gyda'r canllawiau statudol trosfwaol, y mae'n rhaid eu dilyn.
- 1.1.3 Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu roi sylw i'r canllawiau statudol hyn wrth gyflawni eu dyletswyddau i hyrwyddo lles y plant sy'n ddisgyblion yn y lleoliad addysg, gan gynnwys diwallu eu hanghenion gofal iechyd. Mae'r canllawiau hefyd yn berthnasol i weithgareddau sy'n cael eu cynnal oddi ar y safle fel rhan o weithgareddau addysgol arferol.
- 1.1.4 Drwy gydol y ddogfen hon cyfeirir at gynlluniau gofal iechyd. Mae dau fath:

a). Cynllun Gofal Iechyd Unigol yn yr Ysgol (CGIU):

Mae'r cynllun hwn yn cael ei gyflwyno gan yr ysgol pan nodir fod gan ddisgybl anghenion gofal iechyd (gweler ffigur 1). Dyma gynllun ar gyfer gofal disgybl unigol tra'i f/bod yn yr ysgol ac fe all gynnwys cyfraniad gan weithiwr iechyd a chynllun gofal iechyd meddygol.

b). Cynllun Gofal Iechyd Meddygol:

Mae hwn yn gynllun gofal iechyd sy'n cael ei ddarparu gan weithiwr iechyd proffesiynol.

1.2 Datganiadau polisi allweddol

- 1.2.1 Dylid cefnogi disgyblion gydag anghenion gofal iechyd yn briodol er mwyn iddynt gael mynediad llawn i addysg, gan gynnwys teithiau ac addysg gorfforol.
- 1.2.2 Os oes yna unrhyw bryderon wrth weithredu'r polisi hwn sy'n gysylltiedig â diogelu, fe ddylai'r ysgol ddilyn eu gweithdrefnau diogelwch, ac os oes angen, gofyn am gyngor gan Swyddog Diogelu Addysg neu Borth y Plant.
- 1.2.3 Mae'n rhaid i gyrrff llywodraethu sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi disgyblion gydag anghenion gofal iechyd.
- 1.2.4 Dylai cyrrff llywodraethu sicrhau bod staff lleoliad addysg yn ymgynghori â'r gweithwyr proffesiynol perthnasol, disgyblion a rhieni/gofalwyr i sicrhau bod anghenion y disgybl gydag anghenion gofal iechyd yn cael eu deall a'u cefnogi'n effeithiol.
- 1.2.5 Gellir gofyn i unrhyw aelod staff o fewn y lleoliad addysg i ddarparu cymorth i ddisgyblion ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys cynorthwyo neu oruchwylio weinyddu meddyginiaethau. Mae'r rôl hon yn hollol wirfoddol. Rhaid i aelodau staff dderbyn hyfforddiant ddigonol ac addas a chyrraedd y lefel angenrheidiol o gymhwysedd cyn iddynt gymryd y cyfrifoldeb. Ni ellir gofyn i unrhyw aelod o staff weinyddu neu oruchwylio meddyginiaeth oni bai ei fod yn rhan o'u cytundeb, telerau ac amodau neu gynllun swydd a gytunwyd ar y cyd (gweler tudalen 6 – 11, canllawiau cenedlaethol).

Pan nad yw'r cynllun gofal iechyd meddygol, cynllun gofal iechyd unigol (CGIU) a /neu feddyginiaeth ar gyfer disgybl ar gael ar ddiwrnod penodol ac yn rhoi'r disgybl mewn perygl, bydd y pennaeth yn asesu'r risg ac mae gan y pennaeth yr hawl i wrthod derbyn y plentyn i'r ysgol nes bo cynllun gofal iechyd neu feddyginiaeth yn cael eu darparu yn unol â pholisi'r ysgol.

* Serch hynny, ni ddylai hyn effeithio ar bresenoldeb y disgybl. Rhaid i'r Ysgol, yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd siarad gyda'u gilydd cyn gynted ag sy'n bosibl.

1.3 Deddfwriaeth a Chanllawiau

- 1.3.1 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r polisi hwn wedi'i dogfennu yn nogfen Cefnogi Dysgwyr gydag Anghenion Gofal Iechyd. Canllaw. Llywodraeth Cymru 215/2017 (<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy>); tudalennau 3, 4, 5, 27, 28, 29, 30 a 31; y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw.
- 1.3.2 Yn ogystal â hyn, cyfeiriwyd at y canllawiau a'r polisiau canlynol:

- Canllawiau ar y defnydd o anadlydd salbutamol mewn argyfwng mewn ysgolion yng Nghymru. Canllaw. Cylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif 015/2014 (<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/use-of-emergency-salbutamol-inhalers-in-schools-in-wales/?skip=1&lang=cy>)
- Model Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant i'w ddefnyddio yn Ysgolion Sir Ddinbych (<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/diogelu.aspx>)

1.4 Ffurio'r polisi hwn

- 1.4.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng Cyngor Sir Ddinbych, cynrychiolwyr ysgolion (penaethiaid, Cydlynwyr AAA, llywodraethwyr), undebau, nyrsys ysgol a phartneriaid eraill ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Casglwyd, dadansoddiwyd ac ystyriwyd y safbwyntiau o'r ymarfer ymgynghori wrth ffurfio'r polisi hwn.
- 1.4.2 Datblygwyd y polisi hwn ar y cyd gyda llywodraethwyr a staff yr ysgol a Cyngor Sir Ddinbych.

2. Rolau a chyfrifoldebau

- 2.1.1 Yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, mae'r awdurdod lleol a'r bwrdd llywodraethu wedi ystyried y pwyntiau canlynol wrth ddatblygu'r polisi hwn a'i weithdrefnau:
- Dylai'r staff ddeall a gweithio o fewn egwyddorion cynhwysiant.
 - Dylid dylunio gwersi a gweithgareddau mewn modd sy'n caniatáu i'r rhai sydd ag anghenion gofal iechyd i gyfranogi'n llwyr.
 - Dylai'r staff ddeall eu rôl i gefnogi disgyblion gydag anghenion gofal iechyd a dylid darparu hyfforddiant priodol.
 - Dylai'r staff deimlo'n hyderus eu bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng gofal iechyd.
 - Dylai'r staff fod yn ymwybodol o anghenion eu disgyblion drwy rannu anghenion gofal iechyd disgybl unigol yn briodol a chyfreithlon.
 - Pryd bynnag y bo'n briodol, dylid annog disgyblion a'u cefnogi i gymryd cyfrifoldeb i reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain.
- 2.1.2 Mae tudalennau 6-11 o'r canllaw statudol yn cyfeirio at yr isafswm o ran safonau o *arfer disgwylidiedig* ar gyfer y canlynol. Mae'n rhaid dilyn y rhain yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru.
- Awdurdodau lleol;
 - Cyrff Llywodraethu ;
 - Penaethiaid;
 - Athrawon a staff cefnogi;
 - Disgyblion a rhieni/gofalwyr;
 - Gwasanaethau nyrsio iechyd ysgolion GIG Cymru, sefydliadau'r trydydd sector a gwasanaethau arbenigol eraill.
- 2.1.3 Yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn, yr unigolion â chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli anghenion gofal iechyd yw:
- | | |
|--|-----------------------------------|
| Aelod arweiniol o staff ar gyfer rheoli anghenion gofal iechyd | Bethan Jones Pennaeth |
| Protocol yn absenoldeb yr unigolyn hwn | Diane Davies Pennaeth cynorthwyol |
- 2.1.4 Bydd yr holl staff a llywodraethwyr yn ymwybodol o ganllawiau ymarfer annerbyniol fel yr amlinellwyd yn y Canllawiau Cenedlaethol (a nodwyd yn **atodiad 8**), ac mae'n rhaid osgoi'r arferion hyn.

3. Yswiriant

- 3.1 Mae'r ysgol hon, drwy fabwysiadu model polisi'r sir / canllawiau cenedlaethol felly'n cael ei gynnwys yn nhrefniadau yswiriant yr awdurdod lleol mewn perthynas â rheoli anghenion gofal iechyd disgyblion.

4. Camau i'w cymryd pan fydd gan ddisgybl angen gofal iechyd – Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol (CGIU)

4.1 Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol

- 4.1.1 Pan fo anghenion gofal iechyd yn gymhleth, newidiol, hir dymor neu pan fo risg uchel y bydd angen ymyrraeth mewn argyfwng, bydd angen cynllun gofal iechyd unigol (CGIU). Efallai y bydd angen CGIU hyd yn oed os yw cyflwr meddygol yn cael ei reoli'n dda fel arfer.

- 4.1.2 Fodd bynnag, ni fydd yr holl ddisgyblion gydag anghenion gofal iechyd angen CGIU ac mae gennym broses ar waith (gweler ffigwr 1) i benderfynu pa ymyraethau yw'r rhai mwyaf priodol.
- 4.1.3 Yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â salwch byr dymor megis rhai sydd angen cwrs o wrthfotigau, efallai na fydd angen CGIU manwl. Mewn amgylchiadau o'r fath efallai y bydd yn ddigonol llenwi'r ffurflen yn **atodiad 2 yn unig**.

4.2 Datblygiad yr CGIU

- 4.2.1 Mae CGIU yn nodi pa gefnogaeth y mae'r disgybl ei hangen. Nid oes angen iddo fod yn hir na chymhleth. Pan fo gan ddisgybl anghenion gofal iechyd parhaus neu gyfnodol, efallai y bydd angen CGIU.
- 4.2.2 Os yw anghenion gofal iechyd disgyblion yn gymhleth a'u bod yn newid lleoliadau, yna byddwn yn dechrau paratoi yn gynnar er mwyn sicrhau bod CGIU ar waith ar ddechrau'r tymor newydd.
- 4.2.3 Os oes angen unrhyw feddyginiaeth fel rhan o'r CGIU, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen ganiatâd ar gyfer meddyginiaeth yn **atodiad 2** hefyd.
- 4.2.4 Mae ffigwr 1 yn amlinellu'r broses ar gyfer nodi a oes angen CGIU.
- 4.2.5 Mewn rhai achosion e.e. gwrthfotigau byrdymor; ar ddiwedd cam 2 'casglu gwybodaeth' efallai y bydd yn amlwg nad oes angen CGIU. Yn yr achos hwn ni fydd angen symud ymlaen i gam 3 a 4.

Cam 1: Nodi disgyblion gydag anghenion gofal iechyd:

- Disgybl yn cael ei nodi o'r ffurflen gofrestru neu ddull arall (neu ffurflen flynyddol i gasglu data am ddisgyblion)*.
- Rhiant / gofalwr neu ddisgybl yn hysbysu'r ysgol bod anghenion gofal iechyd neu newid mewn anghenion gofal iechyd.
- Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.
- Cynhelir trafodaethau pontio yn brydlon e.e. 8 wythnos cyn naill ai diwedd y tymor neu cyn symud i sefydliad addysgol newydd.

**Cam 2: Casglu Gwybodaeth:**

- Os oes angen posibl ar gyfer CGIU; dylai'r ysgol drafod hyn gyda'r rhiant / gofalwr a'r disgybl ei hunan. Mae'n rhaid gwneud hyn lle bo'n briodol mewn cydweithrediad â'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol perthnasol. Bydd hyn yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniad i nodi a oes angen CGIU.

**Cam 3: Penderfynu a oes angen llunio CGIU:**

- Dylai'r pennaeth neu unigolyn dynodedig drefnu cyfarfod gyda staff priodol, rhieni/gofalwyr, y disgybl, a chlinigwyr priodol i benderfynu os yw anghenion gofal iechyd y disgybl yn gofyn am CGIU, neu a fyddai hyn yn amhriodol neu'n anghymesur. Os oes mater cynhennus gyda'r rhiant / gofalwr, yna bydd y pennaeth yn gwneud y penderfyniad ynglŷn â sut i symud ymlaen; y mae modd ei herio drwy'r weithdrefn gwynion.

**Cam 4: Os oes angen CGIU:**

- Dylai'r pennaeth neu'r unigolyn dynodedig, o dan arweiniad y gweithwyr gofal iechyd priodol, rhieni/gofalwyr a'r disgybl ddatblygu'r CGIU mewn partneriaeth. Mae hyn yn cynnwys llunio, cydlynu, hwyluso cyfarfodydd, dogfennaeth a chyfathrebu cyffredinol yn yr ysgol.
- Y pennaeth neu'r unigolyn dynodedig i hwyluso asesiadau risg gofynnol ac ymyraethau i sicrhau diogelwch y plentyn.
- Bydd y pennaeth neu'r unigolyn dynodedig yn nodi'r staff priodol i gefnogi'r disgybl gan gynnwys nodi unrhyw anghenion hyfforddiant a ffynhonnell yr hyfforddiant.
- Bydd y pennaeth neu'r unigolyn dynodedig yn gwneud trefniadau ar gyfer hyfforddiant gan arbenigwyr perthnasol a chymwys.
- Bydd y pennaeth neu'r unigolyn dynodedig yn cylchredeg yr CGIU ac unrhyw ddiweddariadau i'r: rhieni/gofalwr, pennaeth, athro dosbarth/ cydlynwyr AAA (fel y bo'n briodol), a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. DS: mae'n rhaid derbyn caniatâd gan y rhiant/gofalwr a'r disgybl i wneud hyn.
- Bydd y pennaeth neu'r unigolyn dynodedig yn gosod dyddiad adolygu priodol ac yn diffinio unrhyw elfennau eraill a allai arwain at adolygiad, adran 5.

Addaswyd o : [Cefnogi dysgwyr gydag anghenion gofal iechyd. Canllaw. Llywodraeth Cymru 215/2017.](#)

Ffigur 1-y broses ar gyfer nodi a oes angen CGIU.***Sut yr ydym yn casglu gwybodaeth am anghenion gofal iechyd disgyblion***

Mae ein ffurflen derbyniadau ysgol yn cynnwys cwestiynau am anghenion iechyd disgybl. Mae hefyd yn cynnwys datganiad y bydd rhiant/gofalwr yn hysbysu'r ysgol ynglŷn ag unrhyw newidiadau i anghenion gofal iechyd presennol a newydd y plentyn.

Mae ein ffurflen i gasglu data blynyddol am y disgyblion yn cynnwys cwestiynau am anghenion gofal iechyd, ynghyd â datganiad y bydd y rhiant/gofalwr yn hysbysu'r ysgol os oes unrhyw newidiadau yn ystod blwyddyn yr ysgol.

Ar ôl casglu'r data blynyddol byddwn yn cyflawni gwiriadau i sicrhau bod CGIU ar waith neu fod y rhai presennol yn cael eu hadolygu a/neu ganiatâd meddyginiaeth ar gael.

4.3 Cyfrifoldebau ar gyfer CGIU

- 4.3.1 Yn ein hysgol, mae'r **pennaeth** yn derbyn cyfrifoldeb gyffredinol dros *ddatblygu'r* CGIU (at ddibenion y polisi hwn mae'r term datblygu yn golygu llunio, cydlynu a hwyluso mewn cydweithrediad ag arbenigwyr iechyd perthnasol).

4.4 Datblygiad a chynnwys

4.4.1 Gall datblygiad CGIU manwl ar gyfer disgybl gynnwys y canlynol:

- y disgybl
- y rhieni/ gofalwyr.
- mewnbwn neu wybodaeth o'r lleoliad addysg blaenorol
- gweithwyr gofal iechyd proffesiynol priodol
- gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol
- y pennaeth ac/neu'r unigolyn dynodedig sy'n gyfrifol am anghenion gofal iechyd ar draws y lleoliad
- athrawon a staff cefnogi , gan gynnwys staff arlwyo
- unrhyw unigolion gyda rolau perthnasol megis cydlynnydd cymorth cyntaf, swyddog lles a Chydlynwyr AAA.

4.4.2 Bydd y rhai sy'n llunio'r CGIU yn cytuno ar arweinydd, ond cyfrifoldeb y lleoliad addysg yw sicrhau y caiff ei gadarnhau a'i weithredu.

4.4.3 Bydd yr CGIU yn cael ei ddatblygu gyda lles gorau'r disgybl mewn golwg a byddwn ni a'r gwasanaethau arbenigol (os oes angen), yn asesu'r peryglon i addysg, iechyd a lles cymdeithasol y disgybl.

4.4.4 Nod yr CGIU yw nodi'r camau sydd angen eu cymryd i gynorthwyo disgybl i reoli eu cyflwr ac i oresgyn unrhyw rwystrau posibl a allai eu hatal rhag cymryd rhan yn llawn mewn addysg.

4.4.5 Mae templed o CGIU yn **atodiad 3**.

4.4.6 Os yw gweithiwr iechyd perthnasol wedi darparu CGIU a'i fod yn ymdrin â'r holl agweddau a nodwyd yn yr CGIU enghreifftiol yn **atodiad 3**, nid oes angen CGIU ar wahân. Gall yr CGIU gyfeirio at ddogfennau eraill ac nid oes angen eu hailadrodd.

4.4.7 Fodd bynnag, os penderfynir bod angen CGIU ac nad yw wedi'i ddatblygu hyd yn hyn, byddwn yn llenwi'r CGIU yn **atodiad 3** gyda'r disgybl, rhiant/ gofalwr a gweithiwr iechyd perthnasol. Efallai na fydd yn ofynnol llenwi'r holl adrannau yn y templed hwn. Mae sawl sefydliad trydydd sector wedi cynhyrchu templedi CGIU ar gyfer cyflwr penodol y gellir eu defnyddio e.e. Asthma UK <https://www.asthma.org.uk/advice/child/manage/action-plan/> neu Diabetes UK <https://www.diabetes.org.uk/Guide-to-diabetes/Your-child-and-diabetes/Schools/IHP-a-childs-individual-healthcare-plan/>

4.4.8 Pan fydd gan ddisgybl anghenion addysg arbennig (AAA) bydd yr CGIU yn cael ei gysylltu neu ei atodi i unrhyw ddatganiad AAA / cynllun addysg unigol, neu gynllun dysgu a sgiliau (ôl-16). Efallai y bydd cynllun personol gogyfer â gadael mewn argyfwng ac asesiad risg yn cael eu hatodi hefyd.

4.5 Cydlynu gwybodaeth gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y disgybl a rhieni/gofalwyr.

4.5.1 Mae'r modd y byddwn yn rhannu anghenion gofal iechyd disgybl gyda gweithwyr gofal iechyd a chymdeithasol proffesiynol yn dibynnu ar eu gofynion a'r math o sefydliad addysgol. Bydd yr CGIU yn egluro sut y rhennir gwybodaeth a phwy fydd yn gwneud hyn. Gall yr unigolyn hwn fod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer rhieni / gofalwyr a staff a bydd yn ymgysylltu ag asiantaethau allanol.

4.6 Rôl y disgybl i reoli ei anghenion gofal iechyd ei hunan

4.6.1 Bydd disgyblion sy'n gymwys* i wneud hynny'n cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain, gan gynnwys meddyginiaethau a gweithdrefnau. Dylid adlewyrchu hyn yn CGIU y disgybl.

**Gillick – lle bo'n bosibl, dylid cefnogi'r dysgwr i fagu dealltwriaeth a hyder er mwyn hunan-reoli mwy a mwy ar eu hanghenion gofal iechyd, yn dibynnu ar eu gallu i wneud hynny. Weithiau, fe gyfeirir at hyn fel 'gallu Gillick'.*

4.6.2 Pan fo modd, caniateir i ddisgyblion gludo eu meddyginiaeth eu hunain a'u dyfeisiau perthnasol, neu'n gallu derbyn mynediad cyflym i'w meddyginiaeth. Efallai y bydd rhai disgyblion angen lefel briodol o oruchwyliaeth.

4.6.3 Os yw disgybl yn gwrthod dilyn eu CGIU neu gymryd eu meddyginiaeth neu gynnal gweithdrefn ofynnol, ni ddylai'r staff eu gorfodi i wneud hynny, ond dylid dilyn trefniadau'r sefydliad, a gytunwyd yn yr CGIU. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu cyn gynted â phosibl er mwyn gallu ystyried trefniant amgen ac fe geisir cyngor iechyd lle bo'n briodol.

4.7 Mynediad i'r CGIU

4.7.1 Dylai ei bod yn hawdd cael mynediad at yr CGIU gan bawb sydd angen atgyfeirio ato, tra'n cynnal y lefelau gofynnol o breifatrwydd.

4.7.2 Bydd CGIU yn cael ei storio yn y swyddfa. Ar dripiâu byddant yn cael eu cadw gan yr athrawes dosbarth.

5. Adolygiad o anghenion gofal iechyd disgyblion.

5.1 Cynllun Gofal Iechyd Unigol (CGIU)

5.1.1 Bydd y corff llywodraethu yn sicrhau bod yr holl CGIUau yn cael eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn neu'n amlach os yw'r CGIU yn nodi hynny neu os ceir tystiolaeth newydd fod anghenion y disgybl wedi newid.

5.1.2 Yn yr adolygiad hwn byddwn yn cynnwys yr holl fudd-ddeiliaid allweddol lle bo'n briodol gan gynnwys – y disgybl, rhiant / gofalwr, gweithwyr addysg ac iechyd proffesiynol a chyrrff perthnasol eraill. Tabl enghreifftiol yn **atodiad 6**.

5.2 Dim CGIU

5.2.1 Ar gyfer y disgyblion gydag anghenion gofal iechyd heb CGIU byddwn yn cynnal adolygiad bob blwyddyn.

6. Rhannu a chofnodi gwybodaeth

6.1.1 Mae'r corff llywodraethu wedi sicrhau fod gennym drefniadau cyfathrebu clir ar waith mewn perthynas ag anghenion gofal iechyd y disgyblion. Mae'n rhaid gwneud hyn yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a Pholisi Rhannu Gwybodaeth WASPI (www.waspi.org).

6.1.2 Mae ein polisi rheoli anghenion gofal iechyd a'r polisi rhannu gwybodaeth ar gael i rieni / gofalwyr wefan yr ysgol.

6.1.3 Er mwyn diogelu cyfrinachedd disgybl, byddwn yn trafod gyda'r disgybl a'r rhiant / gofalwr sut y gallwn rannu gwybodaeth am eu hanghenion gofal iechyd. Gofynnir i rieni / gofalwyr lofnodi ffurflen ganiatâd sy'n nodi'r cyrrff, unigolion a'r dulliau ar gyfer rhannu gwybodaeth feddygol y disgybl (**atodiad 2 a 3**). Oherwydd bod rhannu gwybodaeth feddygol yn fater sensitif, byddwn yn cynnwys y disgyblion mewn unrhyw benderfyniadau fel y bo'n briodol.

6.1.4 Byddwn yn rhannu unrhyw wybodaeth i sicrhau bod athrawon, athrawon llanw, unrhyw staff cefnogi a staff dros dro yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd y disgyblion, gan gynnwys CGIUau, yn enwedig os oes posibilrwydd y bydd argyfwng yn codi. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau i anghenion gofal iechyd, CGIUau a meddyginiaethau. Mae'n rhaid i rannu a storio gwybodaeth gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data 1998 (www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/29/contents) ac ni ddylai dorri hawliau preifatrwydd na'r ddyletswydd gyfrinachedd sy'n ddyledus i'r unigolion. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy:

Rydym yn defnyddio hysbysfwrdd yn yr ystafell athrawon i arddangos gwybodaeth ynglŷn â disgyblion gydag anghenion iechyd risg uchel, staff cymorth cyntaf a thystysgrifau, gweithdrefnau mewn argyfwng ac ati.

Rydym yn defnyddio cyfarfodydd staff i gynorthwyo i sicrhau bod staff yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd disgyblion y mae ganddynt neu y gallant gael cysylltiad â nhw.

6.1.5 Byddwn yn sicrhau bod ein disgyblion (neu eu ffrindiau) yn gwybod wrth bwy y dylent ddweud os ydynt yn teimlo'n sâl, angen cefnogaeth neu newidiadau i'w cefnogi.

6.1.6 Byddwn yn gwrandao ar bryderon disgyblion (neu eu ffrindiau) os ydynt yn teimlo'n sâl ar **unrhyw** adeg, ac yn ystyried yr angen am gymorth meddygol (yn enwedig mewn achosion o anawsterau anadlu).

6.1.7 Os bydd disgybl wedi dweud eu bod yn teimlo'n sâl, dylai'r staff priodol gael gwybod; hy os bydd disgybl wedi cael pwl o asthma yn y bore, mae angen i'r holl staff eraill a fydd yn gweld y disgybl yn nes ymlaen yn y diwrnod fod yn ymwybodol a chadw llygad am arwyddion o ddirywiad/salwch pellach. Gallai hyn gynnwys staff sydd ddim yn addysgu, megis staff amser cinio neu staff y dderbynfa, lle bo'n briodol.

6.1.8 Pan fo disgyblion yn cael eu lleoli gyda gwasanaethau eraill ar gyfer yr holl / rhywfaint o'r amser (e.e. uned cyfeirio disgyblion, darpariaeth addysg chweched dosbarth neu ddarpariaeth ag adnoddau) byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth anghenion gofal iechyd priodol yn cael ei rhannu yn unol â'n polisi rhannu gwybodaeth a gyda chaniatâd y rhiant/gofalwr a'r disgybl.

- 6.1.9 Byddwn yn cadw rhestr o pa wybodaeth sydd wedi'i rannu gyda phwy a pham, er mwyn i'r disgybl neu riant/ofalwr ei weld ar gais. Gellir cael mynediad i'r rhestr drwy edrych ar CGIU y disgybl a grëwyd gan yr ysgol a /neu'r ffurflen ar gyfer caniatâd meddygol (**atodiad 2 a 3**).

7. Cadw Cofnodion

- 7.1.1 Bydd cofnod o iechyd plentyn yn cael eu storio ar SIMS yn ddigidol sydd ar gael i pob athrawes. Bydd copi papur yn ffeil personol y disgybl yn y swyddfa. Ni ddyliai cadw copiau yn y dosbarth.
- 7.1.2 Bydd gwaith papur newydd yn cael ei lenwi pan fo newidiadau i CGIU, meddyginiaeth neu ddos. Byddwn yn sicrhau bod yr hen ffurflenni'n cael eu marcio'n glir fel rhai nad ydynt yn berthnasol bellach ac yn eu storio yn unol â'n polisi cadw gwybodaeth.
- 7.1.3 Bydd gweinyddu'r holl feddyginiaethau yn cael ei gofnodi'n ffurfiol gan ddefnyddio **atodiad 5**. Mae hyn yn cynnwys: meddyginiaeth mewn argyfwng, meddyginiaeth nad ydyw ar bresgripsiwn (ee paracetamol) a chyffuriau a reolir.

8. Cyfathrebu â rhieni/gofalwyr

- 8.1.1 Bydd yr ysgol yn cyfarthrebu gyda rhieni/ gofalwyr drwy lythyr, ebost neu ar lafar. Bydd record o unrhwy drafodaeth yn cael ei gofnodi yn log cyfathrebu'r disgybl.
- 8.1.2 Bydd unrhyw newid arwyddocaol yn y drefn o roi meddyginiaeth, neu os yw'r plentyn yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth yn cael ei adrodd i rieni yn syth. Nid yw hyn yn ymarferol bob amser, a dylai'r ysgolion ystyried gweithredu system i hysbysu rhieni / gofalwyr yn ysgrifenedig drwy eithriad. Er enghraifft:

Dylai polisi'r ysgol a'r wybodaeth i rieni/gofalwyr nodi sut y mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni/gofalwyr ac y byddant yn cael eu hysbysu pan fo eithriad yn unig, gan nodi'r rhesymau.

9. Creu amgylchedd dysgu hygyrch

9.1 Hygyrchedd

- 9.1.1 Bydd yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethu yn sicrhau bod ein hysgol yn gynhwysol ac mor hygyrch â phosibl ar gyfer disgyblion gydag anghenion gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys y canlynol (gweler tudalennau 11--13); mae'n rhaid dilyn hyn:
- Mynediad ffisegol i adeiladau lleoliad addysg (cyfrifoldeb pennaf yr awdurdod lleol yw hyn);
 - Addasiadau rhesymol – ategolion / offer/ gwasanaethau (mae hwn yn gyfrifoldeb pennaf i'r corff llywodraethu a'r ysgol);
 - Bydd y corff llywodraethu / ysgolion yn sicrhau bod offer o'r fath yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol;
 - Teithiau dydd ac ymweliad preswyl (cyfrifoldeb pennaf y corff llywodraethu a'r ysgol yw hyn);
 - Rhyngweithio cymdeithasol (cyfrifoldeb pennaf y corff llywodraethu a'r ysgol);
 - Ymarfer corff a gweithgarwch corfforol (cyfrifoldeb pennaf yr ysgol);
 - Rheoli bwyd (cyfrifoldeb pennaf yr ysgol);
 - Asesiadau risg (cyfrifoldeb pennaf yr ysgol);

9.2 Cymwysterau, arholiadau ac asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol

(t18 Canllaw LIC) - Mae'n rhaid dilyn y rhain yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru.

- 9.2.1 Mae hyn wedi'i nodi ar dudalen 18 o ganllaw LIC.
- 9.2.2 Nid yw'n arfer derbynol i ofyn am newidiadau neu amser ychwanegol funud olaf. Rhaid gwneud cais amdanynt mewn da bryd. Rhaid rhoi ystyriaeth i ffug arholiadau neu brofion eraill.

9.3 Addysg ac eithrio addysg ysgol (AEAY)

(t19-20 Canllaw LIC) - Mae'n rhaid dilyn y rhain yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru.

- 9.3.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion oedran ysgol gorfodol sydd ddim yn mynychu lleoliad addysg y brif ffrwd am unrhyw gyfnod, oherwydd eu hanghenion gofal iechyd.
- 9.3.2 Yn achos absenoldeb byr o'r ysgol (llai na 15 diwrnod), byddwn yn darparu gwaith i'w wneud gartref, os yw cyflwr y disgybl yn caniatáu hynny, ac yn cefnogi'r disgybl i ddal i fyny pan fyddant yn dychwelyd.

9.3.3 Os bydd disgybl yn absennol am fwy na 15 diwrnod (olynol neu gronnol) byddwn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod anghenion y disgybl yn cael eu diwallu.

9.4 Integreiddio

(t20-21 Canllaw LIC) - Mae'n rhaid dilyn y rhain yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru.

9.4.1 Mae gennym rôl allweddol i sicrhau integreiddiad llwyddiannus ar ôl diagnosis neu ailintegreiddiad disgyblion gydag anghenion gofal iechyd. Byddwn yn rhagweithiol ac yn gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a'r awdurdod lleol fel y bo'n briodol, ynghyd â'r disgyblion eraill yn ystod y cyfnod pontio. Byddwn yn hyfforddi staff yn brydlon i gynorthwyo'r disgyblion i ddychwelyd. Bydd y gefnogaeth yn cael ei hystyried gan bartion allweddol gan gynnwys y disgybl a rhiant/ gofalwr, a bydd yn cael ei adlewyrchu yn CGIU y disgybl.

9.4.2 Pan fydd disgybl yn cael ei ryddhau o ysbyty dylid bydd gwybodaeth briodol yn cael ei ddarparu i rieni/gofalwyr a dylid ei rhannu gyda ni. Byddwn yn gweithio gyda'r rhiant / gofalwr a'r ysbyty i reoli dychweliad y disgybl.

9.4.3 Byddwn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddal i fyny gyda'r disgybl ar ôl ail-integreiddio.

9.5 Cludiant Ysgol

9.5.1 Ar gyfer cludiant ysgol mewn perthynas â disgyblion gydag anghenion gofal iechyd byddwn yn dilyn polisi cludiant ysgol yr awdurdod lleol.

10. Gweithdrefnau Mewn Argyfwng

10.1.1 Mae gennym bolisi ar waith i ddelio â sefyllfaoedd o argyfwng. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r unigolyn sy'n gyfrifol am y polisi hwn, pwy yw ein staff cymorth cyntaf a sut i ddelio ag anghenion gofal iechyd cyffredin.

10.1.2 Mewn amgylchiadau sydd angen cymorth brys byddwn yn ffonio 999.

10.1.3 Bydd lleoliad cofnodion gofal iechyd disgyblion a manylion cyswllt mewn argyfwng yn hysbys i staff.

10.1.4 Bydd disgyblion eraill yn ein hysgol yn cael gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng h.y. rhoi gwybod i aelod o staff ar unwaith.

10.1.5 Os oes angen mynd â disgybl i'r ysbyty, bydd aelod o staff yn mynd gyda nhw bob tro a byddant yn aros gyda nhw hyd nes y bydd rhiant/gofalwr yn cyrraedd. Mae hyn yn cynnwys eu hebrwng yn yr ambiwlans i'r ysbyty. Bydd yr aelod o staff yn mynd â'r gwaith papur priodol gyda nhw.

11. Dyranid staff a hyfforddiant

11.1.1 Bydd y corff llywodraethu yn sicrhau bod staff sy'n gwirfoddoli neu ar contract i reoli anghenion gofal iechyd y disgyblion yn cael mynediad i'r hyfforddiant a'r canllawiau priodol.

11.1.2 Bydd yr hyfforddiant yn ddigonol i sicrhau bod staff yn gymwys, gyda hyder yn eu gallu i gefnogi disgyblion a chyflawni gofynion yr CGIU. Mae LIC yn nodi y dylech nodi sut y nodir a chefnogir nifer digonol o staff.

11.1.3 Bydd yr hyfforddiant yn drylwyr i sicrhau bod digon o staff yn gymwys i gefnogi anghenion gofal iechyd disgybl e.e. pe bai'r aelod arferol o staff yn absennol.

11.1.4 Gall hyfforddiant gynnwys mewnbwn gan y disgybl a'i rieni/gofalwyr, ond ni fyddant byth yn cael eu defnyddio fel unig ddarparwyr yr hyfforddiant.

11.1.5 Os oes gan ddisgybl anghenion gofal iechyd cymhleth, byddwn yn ceisio mewnbwn a chyngor gan nyrs yr ysgol / nyrs arbenigol / gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a'r awdurdod lleol mewn perthynas â hyfforddiant a chefnogaeth i staff. NODER: anogir ysgolion i drefnu hyfforddiant gan nyrs arbenigol fesul clwstwr lle bo modd.

11.1.6 Bydd yr holl staff yn cael eu hysbysu o'n Polisi Rheoli Anghenion Gofal Iechyd, cyflyrau cyffredin (i sicrhau eu bod yn gallu adnabod symptomau a deall ble i geisio cymorth priodol) a rolau staff wrth gyflawni trefniadau gofal iechyd. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy ddiwrnodau hyfforddiant staff.

11.1.7 Bydd staff newydd a staff dros dro yn cael eu hysbysu ynglŷn â'r mesurau ataliol a brys sydd ar waith er mwyn iddynt allu adnabod pryd y mae angen ymyrraeth a gweithredu'n gyflym. Bydd hyn yn ran o raglen anwytho staff.

11.1.8 Bydd symudiad staff hyfforddedig bob amser yn cyd-fynd â'r disgyblion y maent yn eu cefnogi.

- 11.1.9 Bydd trefniadau ar gyfer pan nad yw staff hyfforddedig sydd fel arfer yn gyfrifol am weinyddu meddyginiaeth ar gael wedi eu nodi yn yr CGIU, yn yr asesiadau risg ac wrth gynllunio gweithgareddau oddi ar y safle.
- 11.1.10 Gofynnir i'r holl staff lofnodi'r polisi hwn i gadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac y byddant yn cydymffurfio â'r polisi hwn.
- 11.1.11 Bydd cofnodion hyfforddiant yn cael eu cynnal, **atodiad 4**.

12. Teithiau dydd, ymweliadau preswyl a lleoliadau gwaith

- 12.1.1 Yn unol â'r dyletswyddau statudol, mae'r corff llywodraethu yn cefnogi'r holl ddisgyblion gydag anghenion gofal iechyd i gymryd rhan mewn teithiau ac ymweliadau.
- 12.1.2 Byddwn yn cysylltu â rhieni/gofalwyr ymlaen llaw drwy gyfarfod / llythyr fel y bo'n briodol i'w cynghori ynglŷn â chynllunio anghenion gofal iechyd / meddyginiaeth eu plentyn ar gyfer y daith/ ymweliad.
- 12.1.3 Bydd yr holl staff sy'n cefnogi taith / ymweliad preswyl yn cael eu hysbysu o anghenion gofal iechyd y plentyn, gan gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a pharchu hawl y disgybl i breifatrwydd. Byddant yn derbyn yr wybodaeth sy'n ofynnol i sicrhau bod staff yn gallu darparu profiad cyfartal ar gyfer y disgybl. Efallai y bydd yr wybodaeth yn cynnwys materion iechyd a diogelwch, beth i'w wneud mewn argyfwng ac unrhyw gefnogaeth ychwanegol, gan gynnwys meddyginiaeth ac offer gofynnol.
- 12.1.4 Yn ystod taith/ymweliad, bydd unrhyw feddyginiaeth sydd ei hangen ar ddisgybl yn cael ei chludo gan yr aelod o staff gyda hyfforddiant perthnasol neu gan y ddisgybl sy'n gallu hunan-weinyddu, os ydynt yn gallu ei weinyddu ei hunain.
- 12.1.5 Bydd disgyblion sydd o bosib angen eu meddyginiaeth yn cael eu rhoi mewn grŵp sy'n cynnwys yr aelod hyfforddedig o staff sy'n cludo'r feddyginiaeth lle bo modd.
- 12.1.6 Os yw plentyn yn cyrraedd i fynd ar daith heb eu meddyginiaeth neu heb ddigon o feddyginiaeth yn unol â'r polisi hwn yna byddwn yn cysylltu â'r rhieni / gofalwr i ofyn iddynt ddod â'r feddyginiaeth i'r ysgol. Os nad yw hyn yn bosibl, yna bydd yn rhaid i ni ystyried a yw'n ddiogel i'r plentyn fynychu'r daith / ymweliad e.e. a yw'r feddyginiaeth ar gyfer argyfyngau, rheoli bywyd. Bydd y pennaeth / unigolyn dynodedig yn penderfynu a yw'n ddiogel i'r disgybl fynychu'r daith.
- 12.1.7 Pan fydd disgybl yn mynd ar brofiad gwaith neu ddigwyddiad tebyg, bydd cefnogaeth gofal iechyd priodol wedi cael ei gytuno a'i roi ar waith.

13. Meddyginiaeth

Noder : pan fydd meddyginiaeth yn cael ei roi ar bresgripsiwn i'w gymryd ar adegau sy'n caniatáu gweinyddu'r feddyginiaeth yn y cartref, dylai rhieni/gofalwyr geisio gwneud hynny e.e. cyn ac ar ôl ysgol ac yn y gyda'r nos. Bydd achosion lle na fydd hyn yn briodol.

Noder: ni ddylid rhoi asbirin na'i ddeilliadau i blant o dan 16 oed oni bai y caiff ei roi ar bresgripsiwn.

13.1 Cyflenwad o feddyginiaeth / dyfeisiau.

- 13.1.1 Ni fyddwn yn cadw cyflenwad dros ben o feddyginiaeth yn yr ysgol, fel y nodir ar y ffurflen ganiatâd. Yr eithriad i hyn yw pan fo er lles gorau'r plentyn.
- 13.1.2 Ni fyddwn byth yn derbyn unrhyw feddyginiaethau sydd wedi'u tynnu o'r cynhwysydd/paced gwreiddiol. Dylai'r feddyginiaeth fod yn y cynhwysydd/paced gwreiddiol, wedi'i labelu gydag enw'r disgybl, enw'r feddyginiaeth, dos ac amllder, a dyddiad dod i ben. Ni fydd staff yn trosglwyddo meddyginiaeth o'i gynhwysydd gwreiddiol, oni bai bod y cynhwysydd yn malu, byddwn yn hysbysu'r rhiant / gofalwr ac fe gymerir camau priodol.
- 13.1.3 Rydym yn derbyn meddyginiaeth yn y cyflwr canlynol yn unig, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol:

- Mae'n rhaid i feddyginiaeth:
- a. O fewn dyddiad.
 - b. Nodi'r cynnwys yn gywir a chynnwys label clir.
 - c. Fod wedi'i labelu gydag enw'r disgybl.
 - d. Gynnwys cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer gweinyddu, dos, amllder a storio.

e. Fod yn ei gynhwysydd gwreiddiol / pecyn gwreiddiol fel y'i rhoddwyd gan y fferyllydd (ag eithrio inswlin sydd fel arfer ar gael mewn pin neu bwmp inswlin) Mae'n rhaid i anadlwyr asthma ac ategolion gynnwys y label ar yr anadlydd)

13.2 Derbyn / dychwelyd meddyginiaethau (gan gynnwys eu cludo i'r ysgol)

- 13.2.1 Cyfrifoldeb y rhiant / gofalwr yw cludo meddyginiaeth y plentyn i'r ysgol.
- 13.2.2 Byddwn yn trafod gyda'r rhieni /gofalwyr ynglŷn â sut i gludo'r feddyginiaeth i'r ysgol a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu ar y ffurflen ganiatâd (atodiad 2).
- 13.2.3 Bydd meddyginiaeth yn cael ei ddychwelyd i'r rhiant / gofalwr yn bersonol yn unig.

13.3 Storio

- 13.3.1 Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel yn yr ysgol.
- 13.3.2 Bydd y pennaeth yn sicrhau bod y risgiau iechyd sy'n deillio o feddyginiaethau yn cael eu rheoli yn unol â Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 (COSHH).
- 13.3.3 Bydd y pennaeth yn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel a phriodol.

Tabl 1 – storio meddyginiaethau (gan gynnwys cyffuriau a reolir)
 Noder: Ni fyddwn byth yn storio meddyginiaeth mewn blwch cymorth cyntaf.

Math o feddyginiaeth	Lleoliad.
Meddyginiaeth nad ydyw'n frys	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr holl feddyginiaeth nad yw'n frys yn cael ei gadw mewn man diogel gyda rheolyddion tymheredd neu olau priodol. • Os yw'n gyffur a reolir, cynghorir mesurau a rheolyddion diogelwch ychwanegol.
	Lleoliad(au)= Cabinet meddygol yn y swyddfa
Meddyginiaethau yn yr oergell	<ul style="list-style-type: none"> • Mae angen cadw rhai meddyginiaethau yn yr oergell. Bydd angen monitro tymheredd yr oergell yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn unol â'r gofynion storio. • Gellir cadw meddyginiaethau mewn oergell sy'n cynnwys bwyd, ond dylai fod mewn cynhwysydd tynn ac wedi'i labelu'n glir. • Dylid ystyried oergell feddygol y gellir ei gloi os oes angen storio cyfansymiau mawr o feddyginiaethau.
	Lleoliad(au)= Oergell ystafell athrawon
Meddyginiaeth ar gyfer achosion brys	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i feddyginiaethau brys fod ar gael yn rhwydd i ddisgyblion sydd eu hangen ar bob adeg yn ystod diwrnod yr ysgol neu mewn gweithgareddau oddi ar safle'r ysgol • Bydd yr holl staff yn ymwybodol o leoliad y meddyginiaethau brys. • Dylai bod meddyginiaethau a dyfeisiau megis anadlwyr asthma, mesuryddion glwcos yn y gwaed a chwistrellwyr awtomatig adrenalin (pinnau) ar gael yn hawdd i'r disgyblion a heb eu cloi. Mae hyn yn hynod o bwysig i'w ystyried pan y tu allan i eiddo'r lleoliad addysgol e.e. ar deithiau. • Os yw'r feddyginiaeth frys yn gyffur a reolir dylid ei gadw mor ddiogel â phosibl er mwyn lliniaru'r risg o fynediad heb ei awdurdodi tra'n caniatáu mynediad cyflym os bydd ei angen mewn argyfwng. Er enghraifft, ni ddylai aelod o staff gadw'r goriadau'n bersonol. • Gall disgybl sydd wedi derbyn presgripsiwn ar gyfer cyffur a reolir ei gadw yn eu meddiant yn ôl y gyfraith, os ydynt yn gymwys i wneud hynny, ac ni ddylent ei basio i ddisgybl arall neu unigolyn heb awdurdod. Efallai y bydd angen monitro. • Pan fydd staff yn gweinyddu meddyginiaeth frys i ddisgybl, bydd yn cael ei gofnodi.
	Lleoliad(au)= Desg yr athrawes ddosbarth

Bydd anadlwyr asthma yn cael eu storio mewn cynhwysydd glân heb lwch.

13.4 Mynediad

- 13.4.1 Mae'n bwysig bod disgyblion yn cael gwybod ble y cedwir eu meddyginiaethau a sut i gael mynediad atynt.
- 13.4.2 Byddwn yn hysbysu'r holl staff ynglŷn â ble y cedwir meddyginiaethau disgyblion a sut i gael mynediad atynt yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 (gweler pwynt 6 a 7).

13.5 Gwaredu

- 13.5.1 Pan nad oes ei angen bellach, byddwn yn dychwelyd y feddyginiaeth i'r rhieni /gofalwr er mwyn iddynt ei waredu'n ddiogel e.e. yn flynyddol neu pan fo dyddiad y meddyginiaethau wedi dod i ben .
- 13.5.2 Os nad yw'r rhieni /gofalwyr ar gael, yna byddwn yn ceisio cyngor gan nyrs yr ysgol ynglŷn â gwaredu'r feddyginiaeth sydd heb ei defnyddio sydd yn yr ysgol. Os nad ydynt ar gael, bydd y feddyginiaeth yn cael ei rhoi i fferyllfa leol.
- 13.5.3 Byddwn bob amser yn defnyddio blwch offer miniog i waredu nodwyddau ac offer miniog arall a'i waredu'n briodol.

13.6 Gweinyddu

- 13.6.1 Pan fydd disgybl o dan 16 oed, mae angen caniatâd ysgrifenedig gan riant/gofalwr er mwyn cynorthwyo neu weinyddu meddyginiaethau ar bresgripsiwn neu heb bresgripsiwn, oni bai bod cymhwysedd Gillick wedi'i gofnodi.
- 13.6.2 Mae'n rhaid i rieni/gofalwyr gyflwyno cais ffurfiol gyda'u caniatâd ysgrifenedig ar gyfer yr ysgol er mwyn i'r staff weinyddu UNRHYW feddyginiaeth i'w plentyn, gan gynnwys pan fo'n ffurfio rhan o'r CGIU (**atodiad 2**).
- 13.6.3 Mae'n rhaid llenwi un ffurflen ganiatâd ar gyfer pob meddyginiaeth.
- 13.6.4** Mae'n hanfodol bod y pennaeth yn cytuno'n ffurfiol gyda'r cais i weinyddu meddyginiaeth a bod y gwaith papur wedi'i llenwi a'i lofnodi cyn y gellir ei weinyddu (**atodiad 2**). Yn absenoldeb y pennaeth bydd y Pennaeth cynhorthwyol yn derbyn y gyfrifoldeb hon. Yn y cyfamser, caniateir i rieni/gofalwyr weinyddu'r feddyginiaeth eu hunain.
- 13.6.5 Yn unol â chanllaw LIC dim ond staff hyfforddedig cymwys fydd yn gweinyddu meddyginiaeth yn unol ag CGIU presennol y disgybl a/neu'r ffurflen ganiatâd a lenwyd i weinyddu meddyginiaeth.
- 13.6.6 Os nad yw'r aelodau hyfforddedig neu gymeradwy o staff sydd fel arfer yn gyfrifol am weinyddu meddyginiaeth i ddisgybl ar gael, bydd CGIU y disgybl yn nodi beth fydd y trefniadau amgen i ddarparu cefnogaeth.

Unigolyn arweiniol i gymeradwyo ceisiadau gweinyddu meddyginiaeth:	Bethan Jones
Yn absenoldeb y pennaeth / unigolyn dynodedig yr unigolyn a enwyd i gymeradwyo ceisiadau i weinyddu meddyginiaeth:	Diane Davies

- 13.6.7 Yn unol ag arfer da byddwn yn ceisio cael dau aelod o staff yn bresennol pan weinyddir meddyginiaeth, a bydd dau lofnod yn cael ei gofnodi. NODER nid yw hwn yn ofyniad cyfreithiol.
- 13.6.8 Pan fydd gweithdrefnau gweinyddu meddyginiaeth yn golygu bod angen oedolyn o'r un rhyw â'r disgybl ac ail lofnod byddwn yn ceisio darparu hyn, a bydd yn cael ei nodi yn yr CGIU ac /neu ar y ffurflen ganiatâd.
- 13.6.9 Os yw'r driniaeth yn ymledol neu bersonol byddwn yn dilyn ein polisi gofal personol oni bai y cytunir ar drefniadau amgen, a bydd yn cael ei gofnodi neu ei atodi i CGIU y disgybl.
- 13.6.10 Wrth weinyddu meddyginiaeth i ddisgybl, bydd y staff yn ail-wirio'r canlynol bob tro:

- a. Gwirio'r ffurflen ganiatâd yn gyntaf.
- b. Mae'n rhaid i'r feddyginiaeth fod yn ei chynhwysydd/paced* gwreiddiol gyda'r label wedi'i atodi;
- c. Os yw ar bresgripsiwn, mae'n rhaid iddo fod wedi'i ddarparu gan fferylllydd;
- d. Mae'n rhaid iddo gynnwys y dyddiad y daw i ben ac fod o fewn y dyddiad hwnnw;
- e. Mae'n rhaid iddo gynnwys enw'r plentyn;
- f. Mae'n rhaid iddo gynnwys enw'r meddyginiaeth;
- g. Mae'n rhaid iddo gynnwys maint dos ac amllder;
- h. Mae'r feddyginiaeth wedi'i storio yn unol â'r cyfarwyddiadau storio;
- i. Faint o'r feddyginiaeth sydd ar ôl
- j. Gwirio'r uchafswm dos

k. Gwirio maint ac amser gweinyddu unrhyw ddos flaenorol

Os oes problem, cysylltwch â'r pennaeth / unigolyn dynodedig ac yna'r rhiant / gofalwr.

** Efallai na fydd rhai meddyginiaethau, megis inswlin, yn eu deunydd pecynnu gwreiddiol ond yn hytrach mewn 'pen' neu mewn pwmp.*

13.6.11 Bydd yr aelod o staff sy'n gweinyddu'r feddyginiaeth yn monitro bod y cyffur wedi'i gymryd.

13.6.12 Bydd gweinyddiaeth yr holl feddyginiaeth yn cael ei gofnodi gan ddefnyddio'r ffurflen yn **atodiad 5**.

13.7 Hunanfeddyginiaeth

13.7.1 Oni bai bod cynllun wedi'i gytuno i'r disgybl weinyddu'r feddyginiaeth ei hunan (16 oed ac uwch neu gymhwysedd Gillick), bydd yr holl feddyginiaethau yn cael eu gweinyddu gan aelod o staff. Mae'n rhaid derbyn cais ffurfiol i ddisgybl hunan-feddyginiaethu (wedi'i gynnwys yn **atodiad 2**) gan y rhieni /gofalwyr cyn y caniateir hyn. Mewn achosion eraill, bydd yn cael ei oruchwylio yn unol â'r CGIU.

13.7.2 Yn unol ag arfer da, gofynnir i ddisgyblion gario digon o feddyginiaeth ar gyfer y diwrnod hwnnw yn unig.

13.7.3 Heb eithriad, ni ddylai'r disgyblion rannu eu meddyginiaeth am unrhyw reswm gyda disgybl arall. Bydd hyn yn cael ei egluro'n llwyr i'r holl ddisgyblion. Bydd hyn yn cael ei drin fel camddefnydd yn unol â'n polisi camddefnyddio sylweddau.

13.8 Newis dos / meddyginiaeth

13.8.1 Pan fyddwn ni'n derbyn cyfarwyddyd i newid dos y feddyginiaeth, ni fyddwn yn ei newid ar gyfarwyddyd y rhieni/gofalwyr yn unig – byddwn angen gweld tystiolaeth gan y gweithiwr iechyd proffesiynol.

13.8.2 Os yw disgybl, rhiant / gofalwr neu weithiwr iechyd proffesiynol yn gofyn am newid mewn dos; mae'n rhaid cadarnhau'r newid yn ysgrifenedig gan y gweithiwr iechyd proffesiynol ac mae'n rhaid i'r rhiant/gofalwr lenwi ffurflen ganiatâd newydd cyn y byddwn yn gweinyddu newid mewn dos i'r disgybl.

13.8.3 Os na ddarperir y gwaith papur perthnasol ar ddiwrnod penodol a bod hyn yn rhoi'r plentyn mewn perygl, bydd y pennaeth /unigolyn dynodedig yn asesu'r risg ac mae ganddynt yr hawl i wrthod derbyn y plentyn i'r ysgol nes bo'r gwaith papur perthnasol wedi'i ddarparu yn unol â'r polisi hwn.

13.9 Effeithiau andwyol

13.9.1 Os yw disgybl yn profi effeithiau andwyol ar ôl gweinyddu'r feddyginiaeth byddwn yn darparu cymorth cyntaf neu'n cysylltu â'r gwasanaethau brys fel bo'r angen a byddwn yn cysylltu â'r rhieni /gofalwyr ar unwaith. Bydd yr effaith andwyol yn cael ei gofnodi ar y daflen gofnodi meddyginiaeth yn **atodiad 5**.

13.10 Gwallau meddygol

13.10.1 Os ydym yn anghofio gweinyddu meddyginiaeth, yn gweinyddu meddyginiaeth yn hwyr, yn darparu dos anghywir o feddyginiaeth, yn darparu dos ychwanegol, yn gweinyddu meddyginiaeth heb ganiatâd, gweinyddu meddyginiaeth gan aelod o staff heb ei hyfforddi neu'n gweinyddu meddyginiaeth i'r plentyn anghywir, yna byddwn yn adroddi'r pennaeth/unigolyn dynodedig a cheisio cyngor gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol neu'n trin y disgybl yn unol â'n gweithdrefnau meddygol brys os oes angen. Byddwn yn cysylltu â rhieni/gofalwyr ar unwaith ac yn llenwi ffurflen ddiwyddiad, **atodiad 7**.

13.11 Gwrthod neu gamddefnyddio meddyginiaeth

13.11.1 Os yw disgybl yn gwrthod cymryd eu meddyginiaeth, yna ni fyddwn yn eu gorfodi i'w gymryd, oni bai bod y sefyllfa yn un brys.

13.11.2 Os yw disgybl yn gwrthod meddyginiaeth mewn sefyllfa o argyfwng (er enghraifft: pigiad adrenalín mewn achos o anaffylacsis), yna ceisir cymorth meddygol proffesiynol a byddwn yn hysbysu'r rhieni / gofalwyr ar unwaith.

13.11.3 Heb eithriad, ni ddylai'r disgyblion rannu eu meddyginiaeth am unrhyw reswm gyda disgybl arall. Bydd hyn yn cael ei egluro'n llwyr i'r holl ddisgyblion. Bydd hyn yn cael ei drin fel camddefnydd yn unol â'n polisi camddefnyddio sylweddau.

13.11.4 Os yw disgybl yn gwrthod neu'n camddefnyddio meddyginiaeth, byddwn yn hysbysu'r rhiant / gofalwr cyn gynted â phosib ac yn gofyn i'r rhieni/gofalwyr geisio cyngor gofal iechyd fel y bo'n briodol. Os na ellir cysylltu â'r rhieni/gofalwyr ar unwaith, efallai y bydd yn rhaid i staff geisio cyngor gofal iechyd ar unwaith neu gysylltu â'r gwasanaethau brys os oes angen.

13.11.5 Wrth hysbysu rhieni/gofalwyr mae'n arfer da gwneud hyn yn ysgrifenedig hefyd. Byddwn hefyd yn cofnodi eu bod wedi gwrthod/camddefnyddio yn **atodiad 5**.

13.12 Meddyginiaeth gudd

13.12.1 Bydd gweinyddiaeth gudd y feddyginiaeth yn cael ei gyflawni o dan ganllawiau llym ac yn cael ei oruchwylio gydag amserlen briodol wedi'i hamlinellu. Mae'n rhaid llenwi ffurflen ganiatâd (**atodiad 9**), gyda chaniatâd gan weithiwr iechyd proffesiynol sy'n amlinellu'r rhesymau a pham fod hyn er budd pennaf y disgybl.

13.13 Meddyginiaeth sydd wedi gorffen neu fod y dyddiad wedi dod i ben

13.13.1 Os yw meddyginiaeth disgybl yn gorffen neu fod y dyddiad yn dod i ben, cyfrifoldeb y rhiant /gofalwyr yw monitro a darparu cyflenwad newydd. Mae hyn wedi'i nodi'n glir yn y ffurflen ganiatâd (atodiad 2); a byddwn yn hysbysu rhieni /gofalwyr yn ein prosectws a'n gwefan.

13.13.2 Fodd bynnag, mae ein cyfrifoldebau a dyletswyddau diogelu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn golygu ei bod yn arfer da i ni wirio dyddiadau dod i ben unrhyw feddyginiaethau sy'n cael eu cadw yn yr ysgol yn rheolaidd. Bydd dyddiadau meddyginiaethau a'u swm yn cael eu gwirio bob tymor ac fe gymerir unrhyw gamau priodol.

13.15 Asthma

13.15.1 Mae Canllawiau ar y defnydd o anadlwyr brys salbutamol mewn ysgolion yng Nghymru. Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 015/2014 (<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/use-of-emergency-salbutamol-inhalers-in-schools-in-wales/?lang=en>) yn nodi y caniateir i ysgolion brynu, cadw a defnyddio pwmp anadlu 'argyfwng' yn yr ysgol. Nid oes gan Ysgol y Gwernant anadlwyr brys.

13.15.2 Bydd caniatâd i ddisgyblion ddefnyddio'r anadlydd mewn argyfwng yn cael ei geisio ar wahân yn unol â chanllaw Llywodraeth Cymru.

13.16 Cyffuriau a reolir

13.16.1 Mae cyffuriau megis Ritalin yn cael eu rheoli o dan ddeddf camddefnyddio cyffuriau. Felly mae'n hanfodol eu bod yn cael eu rheoli rhwng yr ysgol a'r rhieni/ gofalwyr, gan gynnwys eu cludo i'r ysgol.

13.16.2 Yn ddefnyddol bydd cyffuriau a reolir yn cael eu cludo i'r ysgol yn ddyddiol gan rieni/gofalwyr, ond yn sicr dim mwy nag wythnos o gyflenwad fel y nodwyd yn y ffurflen ganiatâd (atodiad 2), ag eithrio pan fydd er lles pennaf y plentyn. Byddwn bob amser yn cofnodi faint o feddyginiaeth sy'n cael ei roi i ni neu yn ôl i'r rhiant/ gofalwr (**atodiad 5**).

13.17 Meddyginiaeth nad ydyw ar bresgripsiwn (e.e. dros y cownter, homeopathig)

13.17.1 Nid yw Ysgol y Gwernant yn cadw meddyginiaeth sydd heb ei roi ar bresgripsiwn (ee paracetamol).

13.17.2 Fe allai fod yna adegau pan fod angen y feddyginiaeth yn annisgwyl yn ystod y dydd. Os bydd hyn yn digwydd a chyn belled ag y derbynnir caniatâd ysgrifenedig gellir rhoi'r feddyginiaeth e.e. cadarnhad ar e-bost a rhaid cwblhau **atodiad 2** a'i ddychwelyd i'r ysgol cyn gynted ag y bo modd.

13.17.3 Mae'r broses ar gyfer meddyginiaeth nad ydyw ar bresgripsiwn yr un fath â phob meddyginiaeth arall; ond bydd yn cael ei drin fesul achos.

13.17.4 Ni chaniateir i ddisgyblion gludo meddyginiaeth nad ydyw ar bresgripsiwn yn yr ysgol oni bai y ceir caniatâd ymlaen llaw (**atodiad 2**).

14. Gweithdrefn Gwyno

14.1.1 Os nad yw disgybl neu riant / gofalwr yn fodlon gyda'n trefniadau gofal iechyd mae ganddynt hawl i gwyno. Mae ein gweithdrefn gwyno wedi'i hamlinellu ar wefan yr ysgol ac ar gael yn y swyddfa.

- 14.1.2 Dyliai cyfeirio unrhyw gosyrn at y Pennaeth yn gyntaf. Gall rieni os yn dymuno ddwysau eu cwyn i'r llywodraethwyr yn unol a pholis cwyno'r ysgol.
- 14.1.3 Os yw'r gŵyn yn ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010/anabledd, yna gellir ystyried cyflwyno her i Dribiwnlys Anghenion Addysg Arbennig Cymru.

15. Adolygu'r Polisi

- 15.1.1 Byddwn yn adolygu'r polisi bob 3 o flynyddoedd neu'n gynharach os bydd angen.

ATODIAD 1

Ysgol XXXX

Cysylltu â'r Gwasanaethau Brys

Cais am Ambiwllans

Ffoniwch **999**, gofynnwch am ambiwlans a byddwch yn barod gyda'r wybodaeth ganlynol lle bo modd.

1. Nodwch eich rhif ffôn [ychwanegwch y rhif ffôn].
2. Eglurwch eich lleoliad fel a ganlyn [ychwanegwch eich cyfeiriad].
3. Nodwch mai'r cod post yw [ychwanegwch eich cod post].
4. Eglurwch union leoliad y sefydliad addysgol [ychwanegwch ddisgrifiad byr].
5. Rhowch eich enw.
6. Rhowch enw'r disgybl a disgrifiad bras o'r symptomau.
7. Hysbyswch Ystafell Reoli'r Ambiwllans o'r fynedfa orau a nodi y bydd rhywun yn cyfarfod y criw a'u hebrwng i [nodwch leoliad].
8. Peidiwch â rhoi'r ffôn i lawr nes bo'r wybodaeth wedi'i hadrodd yn ôl.

Siaradwch yn glir ac yn araf a byddwch yn barod i ail-adrodd yr wybodaeth os bydd angen.

Rhowch gopi o'r ffurflen hon wedi'i llenwi wrth ymyl bob ffôn yn y lleoliad addysgol.

CANIATÂD RHIANT / GOFALWR I'R YSGOL WEINYDDU MEDDYGINIAETH I DDISGYBL

- Ni fydd ein hysgol yn rhoi meddyginiaeth i'ch plentyn oni bai eich bod yn llenwi a llofnodi'r ffurflen hon.
- Os rhoddir mwy nag un meddyginiaeth, dylid llenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob un.
- Mae'n rhaid llenwi ffurflen newydd pan wneir newidiadau i'r ddos.
- Pan gaiff meddyginiaeth ei roi ar bresgripsiwn i gael ei gymryd ar adegau sy'n caniatáu gweinyddu'r feddyginiaeth gartref, dylai rhieni geisio gwneud hynny e.e. cyn ac ar ôl ysgol a min nos. Serch hynny rydym yn deall y bydd achosion lle na fydd hyn yn briodol.
- Bydd rhieni / gofaluwr yn cael eu hysbysu fel y nodwyd ym mholisi'r ysgol pan fydd plentyn yn gwrthod meddyginiaeth neu pan y darperir meddyginiaeth mewn argyfwng.
- Gall rhieni /gofaluwr ofyn i gael gweld y cofnodion.
- Heb eithriad, ni ddylai'r disgyblion rannu eu meddyginiaeth am unrhyw reswm gyda disgybl arall.

Enw'r plentyn	
Dyddiad geni	
Dosbarth	
Anghenion gofal iechyd	
Meddyginiaeth arferol neu mewn argyfwng.	
Meddyginiaeth	
Sylwer: mae'n rhaid i'r feddyginiaeth fod yn y cynhwysydd gwreiddiol a roddwyd gan y fferyllfa.	
Enw, math a chryfder y feddyginiaeth (fel y disgrifir ar y cynhwysydd)	
Dyddiad y cafodd ei roi gan fferylllydd	
Dyddiad y daw i ben	
Dos a pha mor aml y caiff y feddyginiaeth ei chymryd	
Dull gweinyddu	
Amseru'r feddyginiaeth	
Hyd y driniaeth	
Rhagofalon arbennig	
Gofynion arbennig er mwyn gweinyddu'r feddyginiaeth e.e. dau aelod o staff yn bresennol, yr un rhyw â'r disgybl.	
Gofynion storio	
Pwy fydd yn dod â'r feddyginiaeth i'r ysgol a pha mor aml?	
Pwy fydd yn derbyn y feddyginiaeth?	
A yw triniaeth cyflwr meddygol yn effeithio ar ymddygiad neu allu i ganolbwyntio?	
A oes unrhyw sgil-ffeithiau y dylai'r ysgol fod yn ymwybodol ohonynt?	
A oes unrhyw feddyginiaethau sy'n cael eu gweinyddu y tu hwnt i ddiwrnod yr ysgol y mae angen i ni wybod	

amdanynt? A oes unrhyw sgil-ffeithiau y dylem fod yn ymwybodol ohonynt?		
Unrhyw gyfarwyddiadau eraill		
Disgybl i hunan-weinyddu meddyginiaeth o dan oruchwyliaeth o leoliad storio'r feddyginiaeth	Ie / Na (rhowch gylch) Os ie, mae'n rhaid i'r disgybl lofnodi datganiad hefyd*	
Disgybl i gludo a hunan-weinyddu meddyginiaeth	Ie / Na (rhowch gylch) Os ie, mae'n rhaid i'r disgybl lofnodi datganiad hefyd*	
Camau i'w cymryd mewn argyfwng		
Os oes gan yr ysgol anadlydd argyfwng: Os oes gan eich plentyn anadlydd drwy brescriptsiwn: ydych chi wedi rhoi caniatâd i'ch plentyn ddefnyddio anadlydd argyfwng ar ffurflen ganiatâd ar wahân?	Do/ Naddo (cylchwch)	
Dyddiad adolygu a gytunwyd	I'w cwblhau hefo'r Ysgol	
Enw'r aelod o staff sy'n gyfrifol am adolygu	I'w cwblhau hefo'r Ysgol	
CYNLLUNIAU GOFAL IECHYD UNIGOL (CGIU)		
Cynllun Gofal Iechyd gan weithiwr iechyd proffesiynol wedi'i atodi os yn briodol	Ydi / Nac (rhowch gylch) ydi	
CGIU wedi'i greu gan yr ysgol wedi'i atodi os yn briodol (atodiad 3)	Ydi / Nac (rhowch gylch) ydi	
Canllawiau wedi'u darparu gan iechyd wedi'u hatodi os yn briodol e.e. taflen wybodaeth claf	Ydi / Nac (rhowch gylch) ydi	
Dyddiad adolygu'r uchod		
Manylion cyswllt	Cyswllt 1	Cyswllt 2
Enw		
Rhif ffôn yn ystod y dydd		
Perthynas i'r plentyn		
Cyfeiriad		
Cod Post		
Er lles gorau'r plentyn efallai y bydd angen i'r ysgol rannu gwybodaeth gyda staff yr ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill am anghenion gofal iechyd eich plentyn e.e. staff nyrso. Ydych chi'n rhoi caniatâd i rannu'r wybodaeth hon?	Ydw / Nac (rhowch gylch) ydw	
<ul style="list-style-type: none"> Rwyf wedi darllen ac yn cytuno bod yr ysgol yn rhoi meddyginiaeth yn unol â pholisi'r ysgol. Rwy'n deall fy ymrwymadau fel rhiant / gofalwr o dan y canllawiau Llywodraeth Cymru (http://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy). 		

- Mae'r wybodaeth uchod, hyd eithaf fy ngwybodaeth, yn gywir ar adeg ei hysgrifennu ac rwy'n rhoi caniatâd i staff yr ysgol weinyddu'r feddyginiaeth yn unol â'r wybodaeth a nodwyd uchod a pholisi'r ysgol.
- Byddaf yn hysbysu'r ysgol o unrhyw wybodaeth newydd gan weithwyr iechyd proffesiynol ynglŷn â fy mhlentyn e.e. os oes newid i'r ddos neu'r amllder neu os dylid rhoi'r gorau i'r feddyginiaeth. Byddaf yn sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu'n ysgrifenedig gan y gweithiwr iechyd proffesiynol.
- Rwy'n deall mai fy nghyfrifoldeb i yw darparu cyflenwad newydd o feddyginiaeth i'r ysgol a chasglu meddyginiaeth sydd wedi pasio'r dyddiad y daw i ben neu heb ei defnyddio.
- Pan nad yw'r feddyginiaeth briodol ar gael ar ddiwrnod penodol a bod hyn yn rhoi'r plentyn mewn perygl, mae gan y pennaeth yr hawl i wrthod derbyn fy mhlentyn i'r ysgol nes y darperir y feddyginiaeth honno.
- **Fy nghyfrifoldeb i yw darparu meddyginiaeth gyffredinol sydd wedi'i labelu'n gywir.**
- Rwy'n rhoi caniatâd i rannu'r wybodaeth sydd ar y ffurflen gyda gweithwyr iechyd proffesiynol / gofal mewn argyfwng.
- Os yw fy mhlentyn wedi derbyn unrhyw feddyginiaeth frys cyn dod i'r ysgol, byddaf yn hysbysu'r pennaeth / aelod dynodedig o staff yr ysgol cyn dechrau diwrnod yr ysgol.

Llofnod rhiant/gofalwr:	
Dyddiad:	

Hoffwn i fy mhlentyn weinyddu a /neu gludo eu meddyginiaeth eu hunain.

Llofnod rhiant/ gofalwr:	
Dyddiad:	

*Os ie i gwestiynau yma: rwy'n cytuno i weinyddu a/neu gludo fy meddyginiaeth fy hunan. Os ydw i'n gwrthod gweinyddu fy meddyginiaeth fel y cytunwyd, yna bydd y cytundeb hwn yn cael ei adolygu.

Llofnod Disgybl:	
Dyddiad:	

CYTUNDEB Y PENNAETH / UNIGOLION DYNODEDIG I WEINYDDU MEDDYGINIAETH

Cytunir bod (noder enw'r plentyn)..... yn derbyn (noder enw a swm y feddyginiaeth) ..
am (noder yr amser y darperir y feddyginiaeth) ..

Bydd (enw'r disgybl)..... yn derbyn eu meddyginiaeth / yn cael eu goruchwyllo tra byddant yn cymryd eu meddyginiaeth gan (noder enw'r aelod o staff).....

Bydd y trefniant hwn yn parhau tan (e.e. naill ai dyddiad terfynu'r cwrs o feddyginiaeth neu nes y ceir cyfarwyddyd gan y rhieni/gofalwyr).....

Enw (pennaeth/unigolyn dynodedig):

Llofnodwyd:.....Dyddiad:

- Cynllun Gofal Iechyd unigol ar waith; NEU
- Nid oes angen Cynllun Gofal Iechyd Unigol

Atodiad 3
Ysgol XXXX

Model Cynllun Gofal Iechyd Unigol (CGIU)
(addaswyd o www.medicalconditionsatschool.org.uk)

Cysylltiadau i dempledi CGIU ar gyfer cyflyrau meddygol penodol: <http://medicalconditionsatschool.org.uk/>

Sylwch: mae hwn yn IPH cynhwysfawr iawn. Ni fydd pob adran yn berthnasol. Dim ond yr adrannau sydd yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i ofal y disgybl y mae'r ysgol angen eu defnyddio.

Os bydd gweithwyr proffesiynol eisoes wedi darparu eu cynllun gofal iechyd eu hunain, efallai na fydd angen i'r ysgol greu IHP cyn belled â bod yr un gan y gweithiwr iechyd yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'r ysgol ei angen.

Bydd Adran 4 y polisi'n cael ei ddilyn wrth ddatblygu'r CGIU hwn.

1. GWYBODAETH AM Y DISGYBL

1.1 Manylion y Disgybl

Enw'r Disgybl:	
Dyddiad Geni:	
Grŵp blwyddyn:	
Meithrinfa / Ysgol / Coleg:	
Cyfeiriad:	
Tref:	
Cod post:	
Cyflwr (cyflyrau) Meddygol: <i>Rhowch ddisgrifiad bras o'r cyflwr (cyflyrau) meddygol gan gynnwys disgrifiad o'r arwyddion, symptomau, achosion, ymddygiad.</i>	
Alergeddau:	
Dyddiad:	
Diweddar / adolygu'r ddogfen:	
Cymhellion adolygu:	

1.2 Gwybodaeth gyswllt y teulu

Enw:			
Perthynas:			
Rhif ffôn cartref:			
Rhif ffôn symudol:			
Rhif ffôn gwaith			
E-bost:			

1.3 Gwybodaeth hanfodol ynglŷn ag anghenion iechyd y disgybl

	Enw	Manylion cyswllt
Nyrs arbenigol (os yn berthnasol):		
Gweithiwr Allweddol:		
Paediatregydd ymgynghorol (os yn berthnasol):		
Meddyg Teulu:		
Pennaeth:		
Unigolyn cyswllt addysg:		
Athro/Athrawes Ddosbarth:		
Ymwelydd Iechyd / Nyrs Ysgol:		
Cydlynnydd AAA:		
Staff addysgu perthnasol arall:		
Staff perthnasol nad ydynt yn addysgu:		
Unigolyn â chyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu'r cynllun:		
Unigolyn sy'n gyfrifol am weinyddu / goruchwyllo'r feddyginiaeth:		
Trefniadau os yw'r ddau unigolyn hyn yn absennol:		
Unrhyw ddarparwr darpariaeth amgen:		

Mae gan y disgybl y cyflwr (cyflyrau) meddygol canlynol sydd angen y driniaeth ganlynol.	
Gweinyddu meddyginiaeth	Llenwch gytundeb rhiant / gofalwr er mwyn i'r ysgol weinyddu meddyginiaeth (atodiad 2) a'i atodi i'r CGIU hwn. Ffurflen 1= Ffurflen 2=

1.4 Rhannu a chofnodi gwybodaeth

Er lles gorau'r plentyn efallai y bydd angen i'r ysgol rannu gwybodaeth gyda staff yr ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill am anghenion gofal iechyd eich plentyn e.e. staff nyrsio. Ydych chi'n rhoi caniatâd i rannu'r wybodaeth hon?	Ydw/ Nac ydw (Rhowch gylch)
Pa gofnodion fydd yn cael eu cadw ynglŷn ag anghenion gofal iechyd y	

disgybl, a sut y bydd hyn yn cael ei gyfathrebu gydag eraill?	
---	--

2. MONITRO ARFEROL (OS YN BERTHNASOL)

Bydd angen monitro rhai cyflyrau meddygol er mwyn cynorthwyo i reoli cyflwr y disgybl.

Pa fath o fonitro sydd ei angen?	
Pryd y mae angen monitro?	
A oes angen unrhyw offer?	
Sut mae'n cael ei gyflawni?	
A oes targed? Os felly, beth yw'r targed?	

3. SEFYLLFAOEDD O ARGYFWNG

Mae sefyllfa o argyfwng yn digwydd pan disgybl angen triniaeth ar frys i ddelio â'u cyflwr.

Beth sy'n cael ei hystyried fel sefyllfa o argyfwng?	
Beth yw'r symptomau?	
Beth yw'r achosion?	
Pa gamau gweithredu sydd angen eu cymryd?	
A oes unrhyw gamau dilynol (e.e. profion neu orffwys) yn ofynnol?	

4. EFFAITH Y CYFLWR MEDDYGOL A'R FEDDYGINIAETH AR DDYSGU'R DISGYBL

(Dylid cynhyrchu datganiad o effaith ar y cyd gyda'r gweithiwr iechyd proffesiynol a'r athro/athrawes)

Sut mae cyflwr meddygol neu driniaeth y disgybl yn effeithio ar ddysgu? <i>h.y. cof, cyflymder prosesu, cydlyniad ac ati.</i>	
Camau gweithredu i liniaru'r effeithiau hyn	
A yw'r disgybl angen asesiad pellach o'u dysgu?	

5. EFFAITH AR DDYSGU'R DISGYBL A GOFAL YN YSTOD AMSEROEDD BWYD

	Amser	Nodyn
Cyrraedd yr ysgol		
Egwyl Canol Bore		
Cinio		
Egwyl y prynhawn		

Diwedd diwrnod yr ysgol		
Clwb ar ôl ysgol (os yn berthnasol)		
Arall		

- Gweler dyddiadur cyfathrebu cartref-ysgol
 Gweler dyddiadur yr ysgol

6. GOFAL YN YSTOD AMSEROEDD BWYD

Pa ofal sydd ei angen?	
Pryd y dylid darparu'r gofal hwn?	
Sut y caiff ei roi?	
Os mai meddyginiaeth ydyw, faint sydd ei angen?	
Unrhyw ofal arbennig arall sydd ei angen?	

7. GWEITHGAREDD CORFFOROL

A oes unrhyw gyfyngiad corfforol oherwydd y cyflwr (cyflyrau) meddygol?	
A oes angen unrhyw ofal ychwanegol ar gyfer gweithgaredd corfforol?	
Camau gweithredu cyn ymarfer	
Camau gweithredu yn ystod yr ymarfer	
Camau gweithredu ar ôl ymarfer	

8. TEITHIAU A GWEITHGAREDDAU ALLAN O'R YSGOL

Pa ofal sydd ei angen?	
Pryd y mae angen ei wneud?	
Os oes angen, a oes rhywle ar gael i gyflawni'r gofal?	
Pwy fydd yn gofalu am y feddyginiaeth a'r offer?	
Pwy sydd angen eu hysbysu y tu allan i'r ysgol?	
Pwy fydd yn derbyn cyfrifoldeb cyffredinol am y disgybl ar y daith?	

9. AMGYLCHEDD YR YSGOL

A allai amgylchedd yr ysgol effeithio ar gyflwr meddygol y disgybl?	
Sut y mae amgylchedd yr ysgol effeithio ar gyflwr meddygol y disgybl?	

Pa newidiadau allai'r ysgol eu cyflawni i ddelio â'r materion hyn?	
Lleoliad ystafell feddygol yr ysgol	

10. ANGHENION ADDYSGOL, CYMDEITHASOL AC EMOSIYNOL

Efallai y bydd yn rhaid i ddisgyblion gyda chyflyrau meddygol fynychu apwyntiadau clinig i adolygu eu cyflwr. Efallai y bydd angen diwrnod cyfan o absenoldeb ar gyfer yr apwyntiadau hyn ac ni ddylent gyfrif tuag at gofnod presenoldeb y disgybl.

A yw'r disgybl yn debygol o fod angen amser i ffwrdd oherwydd eu cyflwr?	
Beth yw'r broses ar gyfer dal i fyny gyda gwaith a fethwyd oherwydd absenoldebau?	
A yw'r disgybl angen amser ychwanegol i ddal i fyny gyda'r gwaith?	
A yw'r disgybl angen unrhyw gefnogaeth ychwanegol yn y gwersi? Os felly, beth?	
A oes sefyllfa lle bydd angen i ddisgybl adael yr ystafell ddosbarth?	
A yw'r disgybl angen cyfnodau o orffwys?	
A yw'r disgybl angen unrhyw gefnogaeth emosiynol?	
A oes gan y disgybl 'gyfaill' e.e. cymorth i gario bagiau i'r gwersi?	

11. HYFFORDDIANT STAFF

Mae cyrff llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod y staff wedi derbyn hyfforddiant priodol i ofalu am ddisgybl o ran gweinyddu gofal iechyd, cymorthyddion a thechnolegau addasol. Dylid rhyddhau staff yr ysgol i fynychu unrhyw sesiynau hyfforddiant gofynnol os cytunir eu bod angen hyfforddiant.

Pa hyfforddiant sydd ei angen?	
Pwy sydd angen hyfforddiant?	
A yw'r hyfforddiant wedi'i gwblhau?	
Llofnod pennaeth/person dynodedig	

13. CLUDIANT I'R YSGOL

Pa drefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith?	
Pwy fydd yn cyfarfod y disgybl yn yr ysgol?	

14. GOFAL PERSONOL

Ar gyfer disgyblion sydd angen gofal personol fel rhan o'u CGIU, gweler polisi gofal personol yr ysgol.

Pa drefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas ag unrhyw anghenion gofal personol yn ystod diwrnod yr ysgol?	
--	--

15. DEFNYDDIWCH YR ADRAN HON AR GYFER UNRHYW WYBODAETH YCHWANEGOL AM Y DISGYBL

--

Rydym yn awgrymu bod y canlynol yn cael eu storio gyda'i gilydd:

- CGIU gan iechyd
- Ffurflen ar gyfer Caniatâd Meddygol (os yn berthnasol)
- Datganiad AAA/ cynllun addysg unigol / cynllun dysgu a sgiliau
- Proffil un tudalen
- Asesiad risg
- Cynllun Personol gogyfer â Gadael mewn Argyfwng

16. LLOFNODION

	Enw	Llofnod	Dyddiad
Pennaeth/person dynodedig			
Person Ifanc			
Rhiant/gofalwr			
Gweithiwr iechyd proffesiynol.			
Cynrychiolydd Ysgol			
Nyrs yr Ysgol			

ATODIAD 4

Ysgol XXXX

COFNOD HYFFORDDIANT STAFF – GWEINYDDU MEDDYGINIAETH / TRINIAETH

Sicrhewch fod cofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg yn cael ei ddiweddaru'n briodol (os yw'n briodol).

Enw(au):	
Math o hyfforddiant a dderbyniwyd	
Dyddiad derbyn yr hyfforddiant	
Dyddiad cwblhau'r hyfforddiant	
Darparwyd yr hyfforddiant gan	
Swydd a theitl	

Gallaf gadarnhau bod yr aelod(au) o staff uchod wedi derbyn yr hyfforddiant a nodwyd uchod ac yn gymwys i gyflawni unrhyw driniaeth / gweinyddu meddyginiaeth sy'n ofynnol.

Argymhellaf fod yr hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru (nodwch pa mor aml):

Llofnod yr hyfforddwr:

Dyddiad:

Gallaf gadarnhau fy mod wedi derbyn yr hyfforddiant a nodwyd uchod.

Llofnod staff:

Dyddiad:

Dyddiad adolygu a awgrymir:

Mae arfer da yn awgrymu y dylid cynnwys y ffurflen hon mewn llyfr wedi'i rwyngwyo a'i rifo fel nad oes modd vmvrrvd â'r wybodaeth

ATODIAD 5 - Ysgol XXXX - COFNOD O FEDDYGINIAETH A WEINYDDWYD I DDISGYBL

Enw: _____ Dosbarth: _____

Mae arfer da yn awgrymu y dylid defnyddio un ffurflen fesul plentyn rhag ofn y bydd rhiant / gofalwr eisiau ei gweld

Faint o gyffuriau a reolir a dderbyniwyd: _____ Llofnod: _____ Dyddiad: _____

Faint o gyffuriau a rhoddir yn ol i rieni/gofalwyr: _____ Llofnod: _____ Dyddiad: _____

GWIRIADAU: A) Gwirio'r ffurflen ganiatâd yn gyntaf; b) Mae'n rhaid i'r feddyginiaeth fod yn y cynhwysydd gwreiddiol gyda'r label wedi'i atodi; c) Os yw ar bresgripsiwn, mae'n rhaid iddo fod wedi'i ddarparu gan fferylllydd; d) Mae'n rhaid iddo nodi'r dyddiad y daw i ben ac nad yw wedi pasio'r dyddiad hwnnw; e) Mae'n rhaid iddo gynnwys enw'r plentyn; f) Mae'n rhaid iddo gynnwys enw'r cyffur; g) Mae'n rhaid iddo nodi maint y ddos ac amllder; h) Mae'n rhaid storio'r feddyginiaeth yn unol â'r cyfarwyddiadau storio; i) Faint o'r feddyginiaeth sy'n weddill; j) Gwirio'r uchafswm o ran dos; k) Gwirio swm ac amser gweinyddu dos flaenorol. Os oes problem, cysylltwch â'r pennaeth / unigolyn dynodedig ac yna'r rhiant / gofalwr.

Dyddiad	Amser	Enw'r feddyginiaeth	Yr holl wiriadau uchod wedi'u cyflawni	Dos a roddwyd	Cyffuriau a reolir yn unig : faint sy'n weddill	Unrhyw adwaith	Wedi gwrthod y feddyginiaeth / heb ei weinyddu	Rheswm	Wedi hysbysu'r rhiant / gofalwr a sut	Llofnod staff 1	Llofnod staff 2

ATODWCH CGIU / FFURFLEN GANIATÂD I'R FFURFLEN HON

ATODIAD 6

Ysgol **XXXX**

DISGYBLION GYDA CHYNLLUNIAU GOFAL IECHYD UNIGOL (CGIU)

DYDDIADAU ADOLYGU

Disgybl	Dosbarth	Dyddiad CGIU	Dyddiad Adolygu	Dyddiad cwblhau'r adolygiad a llofnod

Atodiad 7:

Ysgol **XXXX**

Adroddiad digwyddiad yn ymwneud â meddyginiaeth / gofal iechyd

Enw'r disgybl:			
Cyfeiriad Cartref:			
Rhif ffôn:			
Dyddiad y Digwyddiad:		Amser y Digwyddiad:	

Meddyginiaeth gywir a'r dds:

Meddyginiaeth fel arfer yn cael ei weinyddu gan:

	Disgybl
	Disgybl gyda goruchwyliaeth staff
	Nyrs / aelod o staff yr ysgol

Math o wall:

	Dos wedi'i ddarparu'n hwyrach na'r amser a drefnwyd
	Hepgor
	Dos anghywir
	Dos Ychwanegol
	Disgybl anghywir
	Dos wedi'i roi heb ganiatâd wedi'i gofnodi yn y ffeil
	Dietegol
	Dos wedi'i weinyddu gan unigolyn heb awdurdod
	Arall

Disgrifiad o'r Digwyddiad:

Camau a gymerwyd:

	Hysbysu rhiant / gofalwr : dyddiad ac amser-	
	Hysbysu nyrs yr ysgol: dyddiad ac amser-	
	Hysbysu'r meddyg: dyddiad ac amser-	
	Hysbysu rheolaeth gwenwyno: dyddiad ac amser-	
	Disgybl wedi mynd adref	
	Disgybl wedi mynd i'r ysbyty	
	Manylion Eraill :	

Unrhyw sylwadau/nodiadau pellach:

Enw:		Swydd:	
Llofnod:		Dyddiad:	

Atodiad 8: Arfer Annerbyniol

Cefnogi dysgwyr gydag anghenion gofal iechyd. Canllaw. Llywodraeth Cymru 2015/2017. Tudalen 27

MAE'N RHAID DILYN HWN

Nid yw'r arfer derbyniol i:

- atal dysgwyr rhag mynychu lleoliad addysg oherwydd eu hanghenion gofal iechyd, oni bai y byddai mynychu'r lleoliad yn debygol o achosi niwed i'r dysgwr neu eraill
- atal dysgwyr rhag cael mynediad hawdd i anadlydd neu feddyginiaeth arall sy'n eiddo iddynt, a'u hatal rhag cymryd eu meddyginiaeth pan fo'n ofynnol
- tybio bod pob dysgwr gyda'r un cyflwr angen yr un triniaeth
- anwybyddu safbwyntiau'r dysgwr neu eu rhieni / gofalwr, neu anwybyddu tystiolaeth neu farn gofal iechyd (er efallai y gellir cwestiynu'r safbwyntiau hyn gan geisio safbwynt ychwanegol yn brydlon)
- anfon dysgwyr gydag anghenion gofal iechyd gartref yn aml neu eu hatal rhag aros ar gyfer gweithgareddau arferol, gan gynnwys cinio, oni nodir hyn yn eu CGIU
- Anfon dysgwr sy'n sâl neu sydd angen cymorth i ystafell feddygol neu'r brif swyddfa ar eu pennau eu hunain neu gyda rhywun sy'n methu eu monitro'n briodol
- cosbi dysgwr am eu cofnod presenoldeb os yw'r absenoldeb yn gysylltiedig â'u hanghenion gofal iechyd. ni ddylid defnyddio 'Absenoldebau awdurdodedig' gan gynnwys apwyntiadau gofal iechyd, amser i deithio i'r ysbyty neu apwyntiad, ac amser gwella ar ôl triniaeth neu salwch i gosbi dysgwr mewn unrhyw fodd. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gymryd rhan mewn gweithgareddau, teithiau neu wobrau sy'n cael eu cymell gan gofnodion presenoldeb
- gofyn am addasiadau neu amser ychwanegol ar gyfer dysgwr yn hwyr. Dylid gwneud cais amdanynt yn brydlon. Dylid ystyried addasiadau neu amser ychwanegol sydd ei angen ar gyfer ffug arholiadau a phrofion eraill
- atal dysgwyr rhag yfed, bwyta neu fynd i'r toiled neu egwyl arall pan fo'r angen er mwyn rheoli eu hanghenion gofal iechyd yn effeithiol
- gofyn i rieni / gofalwyr, neu wneud iddynt deimlo bod rhaid iddynt, fynychu lleoliad addysg, taith neu weithgaredd oddi ar y safle i weinyddu meddyginiaeth neu i ddarparu cefnogaeth gofal iechyd i'r dysgwr, gan gynnwys ar gyfer materion yn ymwneud â mynd i'r toiled
- disgwyl neu achosi i riant / gofalwr roi'r gorau i'w gwaith neu ymrwymadau eraill oherwydd bod y lleoliad addysg yn methu â chefnogi anghenion gofal iechyd y dysgwr
- gofyn i'r dysgwr adael yr ystafell ddosbarth neu weithgaredd os ydynt angen gweinyddu meddyginiaeth amherisonol* neu fwyta bwyd** yn unol â'u hanghenion iechyd
- atal neu greu rhwystrau diangen i gyfranogaeth dysgwr mewn unrhyw agwedd o'u haddysg, gan gynnwys teithiau e.e. drwy ofyn i riant / gofalwr ddod gyda'r dysgwr.

*Er eglurder, mae amherisonol yn golygu meddyginiaeth nad yw'n breifat.

** Yn unol â pholisïau iechyd a diogelwch yr ysgol.

Atodiad 9:

Ysgol XXXX

Awdurdodi'r ysgol i weinyddu meddyginiaeth gudd

Ewch â'r ffurflen hon i'ch Meddyg Teulu i'w llenwi a'i dychwelyd i'r ysgol.

Mae'n rhaid llenwi Atodiad 2 hefyd a'i atodi i'r ffurflen hon

Enw Llawn	Cyfeiriad
Dyddiad Geni	

Meddyginiaeth (yn unol â'r label ar y cynhwysydd)	
Mae'r feddyginiaeth yn ofynnol i drin:	
Dull(iau) gweinyddu y ceisiwyd ei ddefnyddio/ eu defnyddio yn y gorffennol	
Gwrthodwyd y dulliau hyn oherwydd	
Dull cudd o weinyddu:	
Rwyf wedi asesu'r unigolyn ifanc ac yn cadarnhau nad oes ganddo/ganddi'r gallu i roi caniatâd a'i fod/bod angen y driniaeth uchod. Rwyf wedi cynnal dadansoddiad lles pennaf ac rwy'n cadarnhau ei bod er lles pennaf y plentyn i weinyddu'r feddyginiaeth yn y dull a ddisgrifiwyd uchod.	
Enw'r Meddyg:	Stamp y feddygfa
Llofnodwyd	
Dyddiad	

Llofnod rhiant / gofalwr		Dyddiad	
Llofnodwyd pennaeth / unigolyn dynodedig		Dyddiad	

Bydd y trefniant hwn yn parhau naill ai tan ddiwedd cwrs y feddyginiaeth neu nes y derbynnir cyfarwyddyd gan y rhieni / gofalwyr. Mae'n rhaid llenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob meddyginiaeth.